Cyngor Celfyddydau Cymru/Arts Council of Wales

Polisi Rhyngwladol

Uchelgais a Rhagoriaeth Ryngwladol
Polisi Rhyngwladol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru

Rhagymadrodd

Mae'r Celfyddydau yn parhau i chwarae rhan ganolog, rhan hanfodol mewn gwirionedd, i ddatblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth rhwng pobloedd a meithrin deialog rhyngddiwylliannol. Mae cyfnewid syniadau drwy'r celfyddydau yn cyfoethogi pawb. Gall y Celfyddydau gysylltu a chyfathrebu ar lefelau y tu hwnt i iaith arferol neu'n wir pan fydd iaith yn rhwystr. Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru brofiad o gefnogi twf gwaith y celfyddydau rhyngwladol o Gymru ac yng Nghymru, cyn Datganoli ac yn y blynyddoedd ers Datganoli, mewn hinsawdd lle y ceir mwy o fomentwm a phwyslais ar waith o'r fath. Mae'r Cyngor yn manteisio ar y cyfle presennol i ailddatgan ei ddiddordeb mewn gwaith o'r fath a chyhoeddi Polisi Rhyngwladol. Mae hyn yn rhan annatod o'i gymorth i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac felly mae'n cyfuno'r canlynol: cydnabyddiaeth o ddimensiynau a dyheadau rhyngwladol presennol arfer artistig cyfoes ar y cyd â'r angen i gael profiad o waith a safbwyntiau rhyngwladol yn y wlad a dod i gysylltiad â hwy. Mae ein polisi hefyd yn nodi rhai o'r cyfleoedd sydd gan Gymru i ffocysu'r gwaith hwn a darparu adnoddau ar ei gyfer, a rhai o'r sianelau amrywiol ar gyfer y gwaith hwn ynghyd â'r gwaith cydweithredu a'r partneriaethau sydd eu hangen i sicrhau manteision gwaith rhyngwladol. Mae'r cyd-destun ar gyfer gwaith rhyngwladol yn y celfyddydau o Gymru ac i mewn i Gymru yn newid yn gyflym:

- Mae Cymru bellach yn wlad ddatganoledig yn y DU ac o fewn Ewrop fwy o faint. Mae'r Cynulliad wedi meithrin ac yn meithrin cydberthnasau'n rhyngwladol. Mae elfennau diwylliannol ac artistig y cydberthnasau hyn yn bwysig.

- Mae chwyldro cyfathrebu'r deng mlynedd diwethaf wedi arwain at ehangu rhwydweithiau artistiaid drwy ddefnyddio technolegau newydd ac mae wedi ychwanegu cydweithredu a chyfnewid artistig rhithwir at y rhai ffisegol sy'n dibynnu ar deithio. Mae'r ffordd y mae artistiaid yn gweithio yn eu gweld bellach yn eu lleoli eu hunain bron yn llwyr mewn cyd-destunau rhyngwladol.

- Mae Cymru o'r farn bod ganddi gydberthynas ddeinamig â byd sy'n newid a phatrymau mudo a chyfnewid lle y mae angen i ddiwylliannau rannu a meithrin dealltwriaeth.

- Mae Cymru yn wlad ddwyieithog ac mae ganddi'r un canfyddiadau a materion penodol i'w hystyried o ran hunaniaeth a hyder diwylliannol â chymdeithasau dwyieithog eraill neu gymdeithasau amlieithog.

- Mae gan Gymru hanes mawreddog o fod â rhyngwynebau diwylliannau cryf â'r byd, o'r uchelgeisiau ar gyfer rhannu a chytgord y byd, er enghraifft, sydd wrth wraidd sefydlu Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ar ôl yr Ail Ryfel Byd, hyd at yr her i Gelf adlewyrchu dynoliaeth yn arddangosfa Artes Mundi a sefydlwyd yn ddiweddar.

- Yng Nghymru ar ôl Datganoli, ceir diddordeb cynyddol yn ein nodweddion unigryw yn y cyd-destun byd-eang, gyda gwahoddiadau cynyddol i gwmnïau ac unigolion ymddangos yng nghyd-destun gwyliau tramor neu benderfyniadau i fod yn bresennol mewn ymddangosiadau allweddol megis Biennale Celfyddyd Fenis. Mae gweithgaredd Llenyddiaeth Cymru Dramor hefyd yn dangos y galw cynyddol am leisiau Cymreig mewn arenâu cenedlaethol.

- Caiff Polisi Diwylliannol ei ystyried yn flaenoriaeth i Ewrop gyfan bellach i'w chydlynu drwy'r UE. Mae angen i Gymru nodi'r elfennau unigryw y gall eu cyflwyno i drafodaeth, cydweithredu a phartneriaethau diwylliannol mewn Ewrop fwy o faint yn erbyn cefndir Agenda Lisboa.

- Mae dimensiynau rhyngwladol i waith yn y celfyddydau yn hybu economi greadigol Cymru.

- Mae'r celfyddydau wedi chwarae rhan bwysig yn y defnydd o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru a gallent fod yn faes buddiol mewn cynlluniau presennol o ran arian Cydgyfeirio ac mewn rhaglenni yn y dyfodol.

- Mae hyrwyddo Cymru fel lle creadigol yn hybu twristiaeth ddiwylliannol ac yn ategu dadleuon eraill dros fewnfuddsoddi.

- Sefydlodd CCC sefydliad partneriaeth o fewn Celfyddydau Rhyngwladol Cymru sy'n gweithio ar y cyd â'r Cyngor Prydeinig yn bennaf. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn dathlu deng mlynedd o weithgarwch yn 2007 ac yn 2008 gwelir partneriaeth wedi'i hadnewyddu rhwng CCC a'r Cyngor Prydeinig drwy gyfrwng Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

- Yn Adolygiad Celfyddydau Cymru 2006, nodwyd dimensiynau rhyngwladol gwaith yn y celfyddydau a gofynnwyd am ymateb sefydliadol gan y Llywodraeth a chyrff a sefydliadau'r celfyddydau i sicrhau gwaith ac arfer mwy cydgysylltiedig.

Nodau ac Amcanion y Polisi hwn

Mae CCC yn ceisio datblygu, cefnogi a hyrwyddo gwaith artistiaid a sefydliadau creadigol yng Nghymru mewn cyd-destun rhyngwladol. Cydnabyddir mai dim ond mewn partneriaeth a thrwy gydweithredu â sefydliadau ac asiantau yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol y bydd hyn yn bosibl.

Mae'r polisi hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd a gwerth y dimensiwn rhyngwladol i'r celfyddydau yng Nghymru – o ran rhoi cyfleoedd rhyngwladol i'r celfyddydau o Gymru yn ogystal â chyfleoedd i ddod â chelfyddydau rhyngwladol i Gymru.

Mae CCC am sicrhau bod sector y celfyddydau yng Nghymru yn cymryd rhan allweddol mewn rhwydweithiau rhyngwladol a'i fod mewn lle da i fanteisio ar y cyfleoedd.

I'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau, dylai gwaith lleol, cenedlaethol a rhyngwladol fod yn rhan o'r un continwwm. Mae gwaith rhyngwladol yn cynyddu profiad artistiaid a, thrwy waith cyfnewid, mae'n gwella'r cyfleoedd i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae pob artist a sefydliad y celfyddydau yn wynebu cyfyngiadau ar weithgareddau rhyngwladol oherwydd rhwystrau ariannol. Mae CCC am chwarae ei ran i nodi llwybrau ariannu rhyngwladol newydd er mwyn i'r celfyddydau yng Nghymru gyrraedd cynulleidfaoedd byd-eang.

Mae CCC yn cefnogi mwy o weithgarwch a manteisio'n fwy ar gyfleoedd rhyngwladol. Nid yw ein gwaith rhyngwladol wedi'i wahanu oddi wrth ein gweithgareddau craidd. Yn hytrach, mae'n datblygu o'n gwerthoedd a'n hegwyddorion craidd. Rydym yn gwerthfawrogi cydweithio â sefydliadau eraill a byddwn yn ystyried hynny pan fydd gwerth ychwanegol sicr i'r celfyddydau yng Nghymru.

Bydd CCC yn parhau â'i waith rhyngwladol drwy gytundeb partneriaeth wedi'i adnewyddu â'r Cyngor Prydeinig. Bydd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn datblygu ei strategaeth ryngwladol ei hun rhwng 2008 a 2013 yng nghyd-destun y bartneriaeth newydd hon.

Rhanddeiliaid mewn Cyd-destun sy'n Newid:

Mae CCC yn gweithredu mewn Cymru sy'n newid. Mae Datganoli wedi arwain at ailstrwythuro sector y celfyddydau. Mae newidiadau yn economi greadigol y DU yn cynnig cyfleoedd newydd i ymarferwyr yng Nghymru hefyd fel rhan o'r Rhaglen Economi Greadigol sydd â'r nod o sicrhau mai'r DU yw "Canolfan Greadigol y Byd".

Mae ein rhanddeiliaid yn cynnwys artistiaid, sefydliadau'r celfyddydau, darparwyr hyfforddiant artistig a chyrff Addysg uwch, lleoliadau, gwyliau, hwyluswyr, cynhyrchwyr, curaduron, beirniaid, orielau, sefydliadau ieuenctid a sefydliadau cymunedol. Mae ein hymrwymiad hefyd yn cwmpasu datblygu cynulleidfaoedd i'r celfyddydau a chyfleoedd i gael profiad ohonynt. Mae CCC yn cydnabod natur rhyngddibynnol gwaith a seilwaith yng Nghymru a gwaith a seilwaith yn rhyngwladol.

Er mwyn manteisio ar gyfleoedd rhyngwladol newydd i'r celfyddydau yng Nghymru, mae angen cydgysylltu â phartneriaid ar sawl lefel, nid dim ond yn genedlaethol yng Nghymru, ond hefyd yn lleol a chyda phartneriaid yn y DU, yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Mae CCC yn cydnabod diddordeb brwd Llywodraeth Cynulliad Cymru yng ngwerth y celfyddydau i ddatblygu cysylltiadau diwylliannol a diplomyddiaeth gyhoeddus ac fel un o ddimensiynau pwerus polisi cyhoeddus mewn meysydd cysylltiedig megis twristiaeth ac adfywio. Bydd CCC yn ceisio cydweithio'n agos â mentrau cysylltiadau allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i hyrwyddo'r celfyddydau o Gymru yn rhyngwladol.

Mae CCC o'r farn bod CCC a sefydliadau'r celfyddydau, cwmnïau ac artistiaid unigol yn allweddol i hyrwyddo brand rhyngwladol Cymru a gwmpesir mewn llenyddiaeth ddiweddar fel a ganlyn:

Cenedl sy'n barod i ddilyn ei llwybr ei hun. Pobl angerddol nad oes arnynt ofn leisio eu barn. Gwlad nad yw dylanwadau allanol yn effeithio'n ormodol arni. Gwlad sy'n coleddu diwylliant a chreadigrwydd. Gwlad sy'n wirioneddol flaengar sy'n ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn wahanol, yn arloesol ac yn meddwl yn ochrol. (Brand Cenedlaethol Cymru - David Stephens, Rheolwr Brand Cymru)

Bydd CCC yn ceisio alinio ag adrannau gwahanol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd rhyngwladol:

- Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol
- Yr Adran Dreftadaeth
- Busnes Rhyngwladol Cymru, Busnes Creadigol Cymru a'i is-sefydliadau
- Addysg a sgiliau
- Datblygu Cynaliadwy
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

Mae CCC yn cydnabod bod polisïau a strategaethau canlynol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn berthnasol iawn i'r broses o ryngwladoli'r celfyddydau yng Nghymru:

- Strategaeth y Diwydiannau Creadigol
- Cymru: Economi yn Ffynnu
- Strategaeth ddigidol
- Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

Mae llawer o asiantaethau y mae CCC yn gweithio gyda hwy mewn cyd-destun cenedlaethol ond prin yw'r asiantaethau lle y gall CCC ragweld y byddai mwy o gydgysylltu o fudd er mwyn rhannu posibiliadau a safbwyntiau rhyngwladol. Ymhlith y rhain mae:

- Amgueddfa Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Cwmnïau cenedlaethol
- Prifysgolion
- Gwyliau
- Awdurdodau lleol
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Yn ogystal, mae anghenion cynyddol a chyfleoedd i weithio gyda chyrff yn y DU, yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

- Rhwydwaith byd-eang Grŵp Celfyddydau'r Cyngor Prydeinig
- Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (Rhaglen Economi Greadigol)
- Cyngor Celfyddydau Lloegr (ACE), Cyngor Celfyddydau'r Alban (SAC) a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon (ACNI)
- Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio Cyfoes (IETM)
- Celfyddydau Ymweld
- Sefydliadau eraill

Blaenoriaethau Rhyngwladol CCC a'i Ymagwedd tuag at Bartneriaeth

Yn unol â'n blaenoriaethau, ein partneriaethau a'r cyd-destun yr ydym yn gweithredu ynddo, ac ar y cyd â'n dwy Strategaeth Ffurfiau ar Gelfyddyd yn ogystal â blaenoriaethau strategol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, ein gweledigaeth ryngwladol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru yw:

- ***Grymuso a chefnogi artistiaid a sector ehangach y celfyddydau yng Nghymru i weithio'n rhyngwladol - fel y gall artistiaid ddatblygu eu harfer ac fel bod artistiaid o Gymru yn cael eu gweld a'u cydnabod yn gynyddol yn rhyngwladol***

- ***Denu gwaith i'r wlad er mwyn ysgogi'r celfyddydau yma a darparu meincnod ar gyfer sector y celfyddydau cynhenid.***

- ***Datblygu ein gallu ein hun a gallu ein partneriaid i wneud gwaith rhyngwladol drwy fuddsoddi mewn Celfyddydau Rhyngwladol Cymru***

- ***Cyfrannu at godi proffil Cymru yn y byd***

Mae cylch gwaith ein gwaith rhyngwladol wedi'i ddosbarthu mewn pedair blaenoriaeth allweddol:

1) Datblygu uchelgais a rhagoriaeth ryngwladol - gwella gallu artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau i ddatblygu proffil rhyngwladol
2) Creu cyfleoedd a phosibiliadau i'r celfyddydau yn gysylltiedig â phrosiectau strategol a blaenoriaethau daearyddol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
3) Atgyfnerthu gallu CCC a'r sector i nodi cyfleoedd y tu hwnt i Gymru a manteisio arnynt drwy bartneriaethau a rhwydweithiau
4) Hyrwyddo cymeriad unigryw a diwylliant unigryw Cymru drwy eiriolaeth artistig a diplomyddiaeth ddiwylliannol

1) Datblygu uchelgais a rhagoriaeth ryngwladol - gwella gallu artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau i ddatblygu proffil rhyngwladol

Drwy waith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, mae CCC yn cefnogi rhagoriaeth yn y celfyddydau yn rhyngwladol ac mae am sicrhau y caiff artistiaid o'r radd flaenaf o Gymru eu helpu i gyrraedd llwyfannau rhyngwladol

Mae CCC yn cefnogi mentrau rhyngwladol o dan arweiniad artistiaid yn ogystal â gwaith gan amrywiaeth o sefydliadau'r celfyddydau rhyngwladol sy'n rhoi cyfleoedd i artistiaid o Gymru.

Mae CCC yn cydnabod bod rhwystrau i artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau o ran gweithio'n rhyngwladol, yn ymwneud ag arian a materion eraill.

Mae cyfyngiadau ariannol yn golygu bod angen i gymorth fod yn strategol, yn benodol, yn ategu rhagoriaeth, ac wedi'i ddarparu drwy bartneriaeth a/neu gydweithredu.

Mae CCC, gan weithio drwy gyfrwng Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, yn ymrwymedig i gynyddu'r buddsoddiadau o ffynonellau eraill. Rhoddir blaenoriaeth i bartneriaethau sy'n cynnig arian cyfatebol fel buddsoddiadau i'r celfyddydau yng Nghymru.

Mae gwaith rhyngwladol yn waith dwyffordd a chredwn fod manteision mawr i'r celfyddydau yng Nghymru yn sgîl cael cymaryddion ansoddol yn rhyngwladol.

Mae CCC yn credu bod teithiau rhyngwladol a chyfleoedd cydgynhyrchu yn helpu cwmnïau yng Nghymru i ddatblygu eu repertoire, i roi sylw i artistiaid o Gymru ac i ddatblygu potensial masnachol.

Mae angen parhaus i gynorthwyo artistiaid i ymateb i gyfleoedd rhyngwladol. Mae cymorth cydariannu ariannol cyfyngedig yn helpu artistiaid o Gymru i fanteisio ar wahoddiadau rhyngwladol (drwy'r Gronfa Cyfleodd Rhyngwladol a weinyddir gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru).

Mae CCC hefyd yn credu bod mathau eraill o gymorth (h.y. cymorth anariannol) yn bwysig i ddatblygu uchelgais a rhagoriaeth ryngwladol yn sector y celfyddydau, yn enwedig o ran codi ymwybyddiaeth ac eiriolaeth. Ymhlith y gweithgareddau mae:

- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau sy'n cynyddu cyfleoedd i artistiaid gael eu rhaglennu rywle arall yn y byd
- Rhoi digon o wybodaeth i artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau yng Nghymru am gyfleoedd rhyngwladol
- Datblygu sgiliau arwain rhyngwladol yn y celfyddydau yng Nghymru
- Cyngor ac eiriolaeth i grwpiau targed ar ran artistiaid
- Cynorthwyo partneriaid i nodi'r artistiaid gorau ar gyfer digwyddiadau sy'n hyrwyddo Cymru yn y Byd
- Annog artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau i ddatblygu eu cynlluniau rhyngwladol eu hunain, i ganolbwyntio ar eu datblygiad rhyngwladol
- Hyrwyddo cyfnewid artistig drwy gymryd rhan mewn ffeiriau, arddangosfeydd a marchnadoedd rhyngwladol
- Helpu artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau i wneud defnydd effeithiol o gymorth o asiantaethau eraill megis Busnes Rhyngwladol Cymru
- Annog cydweithredu artistig rhyngwladol
- Hyrwyddo cynrychiolaeth i Gymru yng Nghyngor y Gweinidogion Diwylliant yn Ewrop

Yn sgîl pwysau cyllidebol cynyddol, mae angen ystyried ffynonellau arian newydd (o'r tu allan i Gymru) drwy bartneriaethau a phrosiectau trawsgenedlaethol. Mae CCC yn blaenoriaethu prosiectau sy'n cydariannu gwaith cydweithredu rhyngwladol.

2) Creu cyfleoedd a phosibiliadau i'r celfyddydau yn gysylltiedig â phrosiectau strategol a blaenoriaethau daearyddol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Yn wyneb cyfleoedd rhyngwladol cynyddol a mwy o alw, bydd CCC yn blaenoriaethu ei uchelgeisiau rhyngwladol yn strategol drwy gyfrwng Celfyddydau Rhyngwladol Cymru mewn partneriaeth â'r Cyngor Prydeinig a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd strategaeth a blaenoriaethau Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn ystyried:

i) **Blaenoriaethau ffurfiau ar gelfyddyd** - a nodwyd yn Strategaethau Ffurfiau ar Gelfyddyd CCC a'r gwaith o'u datblygu

ii) **Blaenoriaethau daearyddol** - yn seiliedig ar:

a) Partneriaeth barhaus, ymrwymiad a chymorth cynaliadwy i ffurfiau ar gelfyddyd ac artistiaid unigol o Gymru drwy bartneriaid rhyngwladol fel y dangosir gan lywodraeth Québec.

b) Gwledydd blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru;

c) Cyfleoedd i fuddsoddi'n fwy yn y celfyddydau yng Nghymru drwy gyfleoedd partneriaeth ac ariannu newydd a ddarperir gan a) y Cyngor Prydeinig b) cyrff ariannu perthnasol eraill (e.e. y Comisiwn Ewropeaidd)

3) Atgyfnerthu gallu'r sector i nodi cyfleoedd y tu hwnt i Gymru a manteisio arnynt drwy bartneriaethau a rhwydweithiau

Mae artistiaid o bob genre yng Nghymru yn cymryd rhan mewn nifer fawr o rwydweithiau drwy eu gwaith eu hunain. Yn ddi-au, mae'r galw i fwy o artistiaid o Gymru fanteisio ar gyfleoedd rhyngwladol yn cynyddu ac mae angen rhoi cymorth pellach i hyn drwy:

a) Cynyddu'r gallu drwy gymorth i feithrin sgiliau a gwybodaeth
b) Ymagwedd fwy strategol tuag at waith rhyngwladol drwy strategaethau a rennir (e.e. Celfyddydau Rhyngwladol Cymru)
c) Cyfleoedd cynyddol i rwydweithio

Ceir cyfleoedd cynyddol i CCC a phartneriaid gymryd rhan mewn partneriaethau, gwaith cyfnewid prosiectau a rhwydweithiau rhyngwladol. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn hysbysu'r sector o gyfleoedd ac yn hyrwyddo'r defnydd effeithiol o rwydweithiau rhyngwladol.

Yn ogystal, ceir nifer gynyddol o e-rwydweithiau a datblygiadau technolegol perthnasol neu sectoraidd sy'n dileu rhwystrau daearyddol a oedd yn bodoli yn y gorffennol i ryw raddau i artistiaid yng Nghymru. Mae angen ystyried y rhain ymhellach a manteisio arnynt.

Bydd CCC yn gweithio gyda'n partneriaid allweddol i nodi cyfleoedd i artistiaid o Gymru gael sylw dramor, sy'n cynnwys:

i) Rhwydwaith Byd-eang Grŵp Celfyddydau'r Cyngor Prydeinig ac arddangosiadau ffurfiau ar gelfyddyd

ii) Mentrau cysylltiadau rhyngwladol ac allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn cynnwys Busnes Rhyngwladol Cymru (a'i is-adrannau e.e. Busnes Creadigol Cymru), yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

iii) Mae CCC am ystyried ymhellach y cysylltiadau rhwng y celfyddydau a'r economi greadigol a sicrhau bod Cymru yn chwarae rhan ac yn cael budd o nod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod y DU yn arwain y byd o ran yr economi greadigol

iv) Aelodaeth a chydweithredu â'r sefydliadau a'r cwmnïau Ewropeaidd a rhyngwladol priodol â chylch gwaith rhyngwladol mewn gwledydd â blaenoriaeth (e.e. Celfyddydau Ymweld)

v) Creu cyfleoedd i raglenwyr, cynhyrchwyr, curaduron i gefnogi artistiaid o Gymru a dod o hyd i waith newydd yng Nghymru ac yn rhyngwladol

4) Hyrwyddo cymeriad unigryw a diwylliant unigryw Cymru drwy eiriolaeth artistig a diplomyddiaeth ddiwylliannol

Drwy waith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, bydd CCC yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Prydeinig a Llywodraeth Cynulliad Cymru (a phartneriaid perthnasol eraill) i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru yn y Byd. Mae CCC yn credu y bydd buddsoddi yn y gwaith o hyrwyddo diwylliant ehangach Cymru hefyd yn helpu i godi proffil y celfyddydau ac fel arall.

Mae CCC yn credu bod artistiaid rhyngwladol o Gymru o bob genre yn llysgenhadol diwylliannol *de facto*. Maent yn chwarae rhan ganolog eisoes i hyrwyddo Cymru drwy eu ffurf gelf eu hunain.

Mae galw cynyddol ar i artistiaid gymryd rhan mewn gweithgareddau ehangach sydd wedi'u labelu fel diplomyddiaeth ddiwylliannol Bydd CCC yn rhoi cyngor i artistiaid ar y cyfleoedd hyn a bydd yn parhau i hyrwyddo egwyddorion rhagoriaeth artistig ac annibyniaeth artistig yn hyn o beth. Daw gwerth gweithgarwch artistig o'i annibyniaeth, ei ryddid a'r ffaith ei fod yn cynrychioli ac yn cysylltu pobl. Mae CCC yn cefnogi trafodaeth bellach â'r partneriaid perthnasol o ran datblygu gwaith diplomyddiaeth ddiwylliannol Cymru.

Mae'r celfyddydau a diwylliant hefyd yn chwarae rhan fawr i greu naws am le ac i ddenu ymwelwyr a buddsoddwyr i Gymru.

Dulliau/Cyfleoedd presennol i gefnogi Gwaith Rhyngwladol

Mae gan CCC nifer o ddulliau/cyfleoedd i gefnogi gwaith rhyngwladol:

1) Buddsoddi drwy gyfrwng Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (mewn partneriaeth â'r Cyngor Prydeinig)

2) Cymorth prosiect (drwy loteri'r Celfyddydau)

3) Cymorth i Leoliadau (arian i'r Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd)

4) Cymorth strategol i bartneriaeth allweddol a gallu manteisio ar gyfleoedd ariannu Ewropeaidd a Rhyngwladol (e.e. datblygu cyfleoedd

2007-13 gyda Busnes Creadigol Cymru, Busnes Rhyngwladol Cymru ac Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru)

5) Cymorth i godi proffil y celfyddydau o Gymru mewn digwyddiadau arddangos e.e. Cymru yn Biennale Fenis, Gŵyl Caeredin, Cysylltiadau Celtaidd, World Music Exp (WOMEX), South By South West (SXSW), Sculpture Objects and Functional Art Expositions (SOFA) Chicago ac ati

6) Cymorth i wyliau a digwyddiadau â dimensiynau rhyngwladol clir i'r celfyddydau yng Nghymru (e.e. Gŵyl Jazz Aberhonddu, Llangollen, y Gelli Gandryll, Olympiad Diwylliannol 2012)

Casgliad:

- Bydd CCC yn parhau i fuddsoddi'n strategol yng ngwaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a bydd yn gweithio mewn partneriaeth, er budd y celfyddydau yng Nghymru, â'r Cyngor Prydeinig a'n cyllidwyr yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Bydd CCC yn ceisio gwella enw da Cymru am gelfyddydau o safon yn gyffredinol.

- Bydd CCC yn cynorthwyo artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd rhyngwladol.

- Bydd CCC yn parhau i hyrwyddo diwylliant cyfoes Cymru – a gweithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau bod y celfyddydau cyfoes a diwylliant cyfoes yn ategu hyrwyddo Cymru fel lle creadigol.